# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 6 Mawrth 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr James Davies, Peter Arnold Evans, Carys Guy (Is-Gadeirydd), Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Rhys Hughes, Bob Murray, Cefyn Williams a/ac Huw Williams.

Mynychodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd D.I. Smith a'r Cynghorydd E.A. Jones, ar gais y Pwyllgor.

Mynychodd y Cynghorwyr J.R. Bartley, M.Ll. Davies, G.M. Kensler, A. Roberts ac E.W. Williams fel Arsyllwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (PM), Rheolwr Adran: Trafnidiaeth a Chludiant (MJ), Cydlynydd Archwilio (RE), Uwch Swyddog Diogelwch y Gymuned (TW-E), Gweinyddwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (KB) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Win Mullen-James, Joe Welch a/ac Cheryl Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd yr un o'r Aelodau unrhyw gysylltiad personol na rhagfarnol mewn unrhyw fusnes a oedd wedi'i nodi ar gyfer ei ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau a ddylai gael eu hystyried fel mater o frys ym marn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar ddydd Iau 23 Ionawr 2014.

***PENDERFYNWYD*** *–derbyn y cofnodion a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 5 Y POLISI PARCIO AC YMARFER CWMPASU'R ADOLYGIAD TRAFFIG A PHARCIO

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (PGPacA), a oedd yn rhoi trosolwg o'r polisi parcio drafft newydd ac yn manylu ar yr ymarfer cwmpasu a gynhaliwyd i asesu opsiynau ar gyfer cynnal Adolygiad Traffig a Pharcio (ATaPh) ar gyfer y prif drefi ar draws Sir Ddinbych, wedi cael ei gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Rheolwr Adain: Traffig a Thrafnidiaeth (RhATaTh) yr adroddiad a oedd yn dilyn yr un a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2013, Atodiad A, pan gytunwyd y byddai'r polisi parcio'n cael ei adolygu ac y byddai ymarfer cwmpasu'n cael ei gynnal i asesu'r opsiynau ar gyfer ATaPh.

Roedd rhai eitemau yn y Polisi presennol, Atodiad B, yn dal yn berthnasol gyda rhai wedi cael eu disodli oherwydd datblygiadau wedi hynny. Roedd y polisi newydd, Atodiad C, yn mabwysiadu dull a oedd yn cydnabod y rôl y gallai rheolaeth parcio effeithiol ei chyflawni o ran cefnogi'r economi leol. Gallai cyfundrefn barcio a reolir yn dda gael effaith gadarnhaol o ran cynorthwyo canolfan adwerthu. Roedd y deg blaenoriaeth yn y polisi newydd wedi cael eu rhestru yn yr adroddiad.

Eglurwyd mai Cam Gweithredu 5.1d yn y "Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol" fu cynnal ATaPh ar gyfer y prif drefi ar draws Sir Ddinbych. Roedd yr ymarfer wedi arwain at ddatblygu methodoleg awgrymedig ar gyfer yr ATaPh a oedd wedi'i chynnwys yn Atodiad D. Roedd adborth oddi wrth y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol wedi cael ei ymgorffori yn y fethodoleg.

Darparodd y CC-UEaCh a'r Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (PTaDC) fanylion yr adolygiad a'i arwyddocâd o ran adnabod anghenion y trigolion, busnesau lleol, a'i bwysigrwydd o ran hybu a chefnogi'r economi leol.

Roedd yr ATaPh wedi cael ei gynnig i arfarnu sut y gallai rheolaeth parcio a thraffig gyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol i ddatblygu'r economi leol, ac roedd wedi cael ei gydnabod na allai darpariaeth parcio ar ei phen ei hun ddylanwadu ar hyfywedd a ffyniant canolau trefi. Roedd pwysigrwydd arwyddion da, darparu mynediad diogel ar gyfer cerddwyr, beicwyr, cludiant teithwyr a'r rhai â nam ar eu symudedd wedi cael ei amlygu hefyd. Nodwyd y gallai tagfeydd traffig neu "rwydd hynt i bawb" barcio o bosib greu amgylchedd anatyniadol, anniogel a digroeso.

Cafodd manylion y data a ddarparwyd gan fesuryddion talu ac arddangos presennol ei amlinellu, ac eglurwyd fod diffyg data mewn meysydd penodol ar hyn o bryd wedi ei gwneud yn anos arfarnu ac asesu'r costau cysylltiedig. Roedd y man cychwyn arfaethedig ar gyfer yr ATaPh wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad, a'r cam terfynol fyddai adnabod datrysiadau posib i geisio gwella dylanwad rheolaeth traffig a pharcio yng nghanol trefi. Roedd crynodeb o'r costau wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Hysbyswyd yr Aelodau y byddai angen i'r adolygiad o'r polisi parcio gael ei gynnal o fewn cyllidebau presennol gwasanaethau, a bod angen asesu'r effaith ar gostau a lefelau incwm yn ystod adolygiadau. Byddai angen i'r pwysau cyllidebol cyfredol, yn bennaf mewn perthynas â meysydd parcio Prestatyn a'r Rhyl, gael eu hystyried fel

rhan o’r adolygiadau. Roedd dogfen Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei chynnwys yn Atodiad E.

Trafododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad yn fanwl ac fe nodwyd y camau gweithredu a’r materion canlynol:-

- yr angen i gysylltu â Chynghorau Tref ynghylch y diwrnodau mwyaf priodol i’w clustnodi fel ‘diwrnodau parcio am ddim’ i sicrhau nad yw’r Sir yn dioddef colledion incwm sylweddol.
- ei bod yn bwysig sicrhau bod yr holl fesuryddion talu ac arddangos yn casglu data perthnasol a defnyddiol i alluogi’r Cyngor i’w ddefnyddio’n effeithiol.
- angen i feysydd parcio fod ag arwyddion eglur ar gyfer arosiadau byr a hir a bod yr holl arwyddion yn gyfredol a chyfoes.
- y dylai’r ddarpariaeth parcio ar gyfer coetsis mewn trefi gael ei hymgorffori fel rhan o’r adolygiad.
- yr angen i archwilio darpariaeth parcio yn ardaloedd gwledig y Sir, yn enwedig mewn ardaloedd twristaidd.
- Materion cynnal a chadw a nifer y ceudyllau mewn meysydd parcio yr oedd gofyn rhoi sylw iddynt.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cafwyd cais gan yr Aelodau i gynnwys adroddiad cynnydd ar yr Adolygiad Parcio ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer Hydref 2014.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar ystyriaeth i’r pwyntiau uchod a’u cynnwys yn yr adroddiad, bod y Pwyllgor:-*

*(a) yn cymeradwyo cyflwyno’r polisi parcio newydd a oedd wedi’i ddrafftio yn Atodiad C wrth yr adroddiad.*
*(b) yn cefnogi’r dull awgrymedig o gynnal adolygiad traffig a pharcio ar gyfer y trefi a restrir yn yr adroddiad, ac*
*(c) yn gofyn am adroddiad ar ganfyddiadau’r adolygiad traffig a pharcio i’r Pwyllgor yn hydref 2014.*

## 6 CYNLLUN LLWYBRAU DIOGEL

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (PGPacA), a oedd yn manylu ar y fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (LlDMC), ac yn rhoi cefndir y fenter yn ogystal â’r prosesau i’w dilyn ar yr amryw gamau mewn prosiect a gyllidir â Grant LlDMC Llywodraeth Cymru, wedi cael ei gylchredeg gyda phapurau’r cyfarfod.

Cyflwynodd y PGPacA yr adroddiad a chyfeiriodd at broblemau parcio sy’n gysylltiedig ag ysgolion a oedd yn aml yn waeth mewn ysgolion trefol. Roedd yr adroddiad yn amlygu prif nod prosiectau LlDMC, ac roedd Atodiad A yn cynnwys manylion prosiectau LlDMC a gyflawnwyd ers 2006. Roedd yr adroddiad yn crynhoi’r broses weinyddol ar gyfer cynlluniau LlDMC a gyflawnwyd, a oedd yn cynnwys cynhyrchu Cynllun Teithio gan y priod ysgolion/cymunedau.

Roedd y Cynghorydd E.A. Jones a Chyngor Tref Bodelwyddan wedi mynegi pryderon ynghylch y modd yr oedd prosiect LlDMC Bodelwyddan yn cael ei reoli. Darparodd y Cynghorydd E.A. Jones grynodeb o'r problemau yr oedd trigolion ym Modelwyddan wedi'u hwynebu, gan gyfeirio'n arbennig at faterion a oedd wedi codi yn dilyn gweithredu cynllun gostegu traffig ar Ronaldsway yr honnwyd ei fod wedi gwaethygu'r problemau yn yr ardal. Mynegodd y Cynghorydd Jones y farn bod hwn wedi bod yn gynllun cymhleth mewn ardal fechan ac roedd pryderon wedi cael eu mynegi ynghylch ansawdd a safon y gwaith, yn enwedig mewn perthynas â darparu'r clustogau arafu.

Cafodd y gwahaniaethau a awgrymwyd rhwng y cynllun a oedd wedi'i gytuno a'r hyn a weithredwyd eu hamlygu ac roeddent wedi'u cynnwys yn Atodiad B. Dim ond Cam 1 o'r cynllun oedd wedi cael ei weithredu hyd yma a darparwyd manylion y broses ymgynghori a oedd wedi cael ei mabwysiadu. Roedd yr ardal gollwng teithwyr wedi cael ei hychwanegu yn dilyn ceisiadau a gafwyd yn yr ymatebion ymgynghori, ac nid oedd hyn wedi cael ei gyfleu i Bwyllgor Teithio'r Cyngor Tref tan ar ôl i'r cynnig gael ei gyflwyno oherwydd diffyg amser. Roedd y raddfa amser dynn wedi codi oherwydd awydd y Pwyllgor Teithio i'r cynllun ddechrau cyn gynted â phosib, yn hytrach na disgwyl am y cylch cyllido nesaf. Roedd y farn wedi cael ei mynegi nad oedd y Cyngor Tref wedi ymgysylltu'n llawn â'r prosiect ac y bu diffyg perchnogaeth ar y cynllun.

Mynegwyd pryderon ynghylch meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun hwn, gan fod y newid mewn meini prawf wedi arwain at ddryswch ynglŷn â'r Cynllun. Nododd Aelodau'r problemau a oedd wedi codi gyda'r Cynllun ym Modelwyddan a chytunwyd fod llinellau ymgysylltu a chyfathrebu eglur rhwng y Cyngor Sir, contractwyr, Cynghorau Tref a Chymuned a'r cyhoedd yn hollbwysig er mwyn i gynlluniau o'r fath gael eu cyflawni'n llwyddiannus. Fe ofynnon nhw hefyd i swyddogion gynnal cyswllt â'r Cynghorydd E.A. Jones a'r Grwpiau Ardal Aelodau mewn perthynas â phroblemau penodol a chanlyniadau'r cynllun ym Modelwyddan.

Cytunodd yr Aelodau y byddai llythyr yn cael ei anfon gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor at Weinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru'n erfyn arni i adolygu'r meini prawf ar gyfer y Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a'i gyfyngu yn y dyfodol i lwybrau diogel i ysgolion.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) yn amodol ar y sylwadau a ddarparwyd, fod y Pwyllgor yn cefnogi ceisiadau parhaus am gyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn Sir Ddinbych*
*(b) y byddai llythyr yn cael ei anfon gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor at Weinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru'n erfyn arni i adolygu'r meini prawf ar gyfer y Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a'i gyfyngu yn y dyfodol i lwybrau diogel i ysgolion.*

## 7 GORCHMYNION RHEOLI CŴN

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PCaGC), a oedd yn manylu ar y potensial i'r Cyngor gyflwyno rheolaethau

cyfreithiol ychwanegol dros gŵn a'u perchnogion ledled y Sir, wedi cael ei ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd D.I. Smith yr adroddiad a hysbysodd yr Aelodau ynghylch pwerau cyfreithiol ychwanegol sydd ar gael i gymryd camau gorfodi yn erbyn perchnogion cŵn anghyfrifol, a gofynnodd am gymeradwyaeth i ganiatáu i swyddogion ganlyn arni ag ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cyflwyno Gorchmynion Rheoli Cŵn ledled y Sir.

Roedd Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 a Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 wedi cael eu crynhoi yn yr adroddiad. Roedd cwynion yn dod i law yn fynych ynghylch baeddu gan gŵn ac roedd pwerau cyfredol yn cyfyngu ar y camau gweithredu y gellid eu cymryd yn erbyn perchnogion cŵn a oedd yn caniatáu i'w cŵn faeddu mewn ardaloedd penodol. Roedd dadl glir o safbwynt iechyd y cyhoedd a gwella amwynder dros gyflwyno mwy o reolaethau cyfreithiol, ar ffurf Gorchmynion Rheoli Cŵn, i fynd i'r afael â phroblem rheoli cŵn mewn ffordd wahanol a mwy cadarn. Roedd baeddu gan gŵn yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996, a oedd yn ei gwneud yn anghyfreithlon methu â chodi baw wedi i'ch ci faeddu tir.
Fodd bynnag roedd esemptiadau ar gyfer rhai mathau o dir cyhoeddus gan gynnwys tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu goetiroedd, tir comin gwledig, tir sy'n bennaf yn gorstir, gweundir neu rostir a thir priffordd â therfyn cyflymder o 40mya neu fwy. Nid oedd modd cymryd camau gorfodi ar hyn o bryd yn yr ardaloedd hyn.

Eglurodd y Cynghorydd Smith fod cynnig yn cael ei wneud i gyflwyno 3 Gorchymyn Rheoli Cŵn yn amodol ar ymgynghori â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Roedd y Gorchmynion hyn yn cynnwys:-

- Gorchymyn Baeddu Tir gan Gŵn (CSDd) Drafft 2014. Byddai hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon baeddu ar unrhyw dir o fewn ardal weinyddol y Cyngor oni bai fod yr unigolyn wedi cael caniatâd gan y tirfeddiannwr.

- Gorchymyn Cŵn ar Dennyn yn ôl Cyfarwyddyd (CSDd) Drafft 2014. Byddai hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon bod â chi yn eich gofal nad oedd ar dennyn ar unrhyw briffordd neu unrhyw dir arall oedd ag arwydd eglur ym mhob mynedfa'n dynodi bod yn rhaid i gŵn gael eu cadw ar dennyn. Roedd yr ardaloedd o 'dir arall' wedi cael eu diffinio yn Atodiad 1.

- Gorchymyn Gwahardd Cŵn (CSDd) Drafft 2014. Byddai hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gŵn fynd i mewn i ardal ddynodedig oedd ag arwyddion eglur ym mhob mynedfa'n dynodi bod cŵn wedi'u gwahardd yn benodol. Byddai'r ymgynghoriad yn nodi pa ardaloedd yn union y gellir eu cynnwys fel ardaloedd gwahardd, ac roedd hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

Byddai torri Gorchmynion yn gyfystyr â thramgwydd troseddol a gellid naill ai erlyn amdano yn y Llys Ynadon neu roi'r cyfle i berchennog y ci dalu HCB rhwng £75 a £150. Y gosb ariannol ar hyn o bryd oedd £75 a byddai'r dull gorfodi llym mewn perthynas â methiant i dalu'r HCB yn parhau, gyda phobl sy'n dewis peidio â thalu

eu HCB yn cael eu herlyn. Cynigiodd y Cynghorydd H.O. Williams, gyda'r Cynghorydd C.H. Williams yn eilio, welliant bod yr HCB yn cael ei godi o £75 i £100. Roedd y bleidlais yn gyfartal a defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw o blaid yr argymhelliad yn yr adroddiad, bod yr HCB yn aros ar £75, ac fe fethodd y gwelliant.

Roedd manylion y broses ymgynghori a ddilynwyd wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad. Roedd yr angen am reolaethau cyfreithiol ychwanegol ar ffurf Gorchmynion Rheoli Cŵn wedi cael ei gytuno'n flaenorol fel rhan o Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar Atal Baeddu gan Gŵn. Pe rhoddid cymeradwyaeth i symud ymlaen, byddai cyfnod ymgynghori 28 diwrnod yn cael ei gynnal gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, Cynghorwyr Sir, aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid dynodedig eraill. Byddai'r holl ymatebion yn cael eu trafod gyda'r Aelod Arweiniol, a phwysleisiwyd pe bai'r Gorchmynion yn cael eu gweithredu y byddai angen i'r dull gorfodi fod yn sensitif, yn gymesur ac yn raddol. Byddai hyn yn cynnwys defnyddio rhybuddion llafar, arwyddion priodol a chyhoeddusrwydd.

Gofynnodd y Cynghorydd H.O. Williams am ystyriaeth i'r posibilrwydd o ymestyn ardaloedd gorfodi y tu hwnt i derfynau meysydd parcio gwledig, megis yr un yn Moel Famau, i gynnwys llwybrau troed, ardaloedd o fewn yr AHNE a lleoliadau poblogaidd eraill a ddefnyddir gan y cyhoedd. Eglurodd y Cynghorydd Smith fod problemau wedi codi mewn perthynas â gosod biniau ac arwyddion gwastraff cŵn o fewn yr AHNE.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r ceisiadau canlynol gan Aelodau-:

- bod fersiwn Cymraeg yr arwyddion baeddu gan gŵn yn cael ei gywiro gan fod y cyfieithiad yn anghywir.
- bod copi o'r llythyr a anfonwyd at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned yn erfyn arnynt i brynu biniau baw cŵn a buddsoddi mewn cadw eu cymunedau'n daclus yn cael ei anfon at bob cynghorydd sir er gwybodaeth.
- bod cyfathrebiad yn cael ei anfon at yr holl Gynghorwyr Sir yn eu hysbysu ble y gellid cael bagiau baw cŵn er mwyn iddynt allu hysbysu eu trigolion.
- bod dichonoldeb anfon hysbyslenni at yr holl drigolion gyda'u biliau Treth Gyngor yn amlinellu'r cosbau am droseddau baeddu gan gŵn yn cael ei archwilio.

Darparwyd manylion cyfyngiadau mewn perthynas â chŵn ar draethau o fewn y Sir mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelodau. Cynigiodd y Cynghorydd H.O. Williams, gyda'r Cynghorydd C.H. Williams yn eilio, welliant bod yr HCB yn cael ei godi o £75 i £100. Roedd y bleidlais yn gyfartal a defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw o blaid yr argymhelliad yn yr adroddiad, bod yr HCB yn aros ar £75, ac fe fethodd y gwelliant.

Yn dilyn trafodaeth bellach rhoddodd y Pwyllgor ei gefnogaeth i egwyddor cyflwyno gorchmynion rheoli cŵn ledled y Sir, ac yna:-

***PENDERFYNWYD** – fod y Pwyllgor:-*

*(a) yn cefnogi ac yn cytuno â'r opsiynau ar gyfer Gorchmynion Rheoli Cŵn a gyflwynir yn yr adroddiad,*

*(b) yn argymell bod swyddogion yn cael canlyn arni ag ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cyflwyno Gorchmynion Rheoli Cŵn ledled y Sir, ac*
*(c) yn argymell bod yr Hysbysiadau Cosb Benodedig sy'n gysylltiedig â'r Gorchmynion Rheoli Cŵn arfaethedig yn cael eu pennu ar £75.*

**8 KINGDOM**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, a oedd yn darparu diweddariad cynhwysfawr ar weithgareddau Kingdom Security Ltd (KSL) i orfodi yn erbyn troseddau amgylcheddol, sut yr oedd y gwasanaeth wedi cael ei reoli a'i ddatblygu dros y 12 mis diwethaf, a'r costau cysylltiedig, wedi cael ei gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd D.I. Smith yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor, ym mis Hydref 2012, wedi penodi KSL i gyflawni rôl bwysig gorfodi yn erbyn troseddau amgylcheddol ledled y Sir. Roedd KSL yn gyfrifol am orfodi yn erbyn troseddau amgylcheddol megis gadael sbwriel, baeddu gan gŵn, gosod posteri'n anghyfreithlon, ysmygu mewn man amgaeëdig a graffiti. Baeddu gan gŵn oedd y trosedd yr oedd pobl yn cwyno amdano'n fwyaf mynych, a gadael sbwriel oedd y trosedd y rhoddwyd y mwyaf o HCBau amdano.

Roedd rôl a chylch gwaith swyddogion KSL wedi cael eu crynhoi yn yr adroddiad. Roedd papurau briffio aelodau wedi cael eu hanfon at yr holl Aelodau a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn chwarterol i ddarparu diweddariadau ar weithgareddau swyddogion a nifer yr HCBau a oedd wedi cael eu rhoi. Roedd Atodiad 1 yn ymgorffori'r papur briffio diweddaraf ar gyfer Aelodau.

Roedd ymgyrchoedd arbennig wedi cael eu cynnal i fynd i'r afael ag ardaloedd lle'r oedd baeddu gan gŵn yn broblem, a'r rheiny'n cynnwys ymgyrchoedd yn gynnar yn y bore ac ar benwythnosau mewn lleoliadau amrywiol. Roedd teledu cylch cyfyng wedi cael ei ddefnyddio i ategu'r ymgyrchoedd ac roedd digwyddiad addysgol llwyddiannus a barodd am wythnos wedi cael ei gynnal ar Stryd Fawr y Rhyl.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint darparodd cynrychiolwyr KSL ddeunydd fideo ar gyfer yr Aelodau a oedd yn dangos HCB yn cael ei roi ar Coast Road rhwng y Rhyl a Phrestatyn.

Roedd gwybodaeth ariannol a manylion cefndir yr HCBau wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad. Roedd cyfanswm y patrolau a gwblhawyd ledled y Sir a nifer y rhybuddion a'r rhybuddiadau a roddwyd wedi cael eu hymgorffori yn Atodiad 2. Hysbyswyd yr Aelodau fod manylion cwynion a gafwyd ers mis Hydref 2012, y weithdrefn ymchwilio a fabwysiadwyd, y broses ymgynghori, risgiau a chamau a gymerwyd i fynd i'r afael â hwy wedi cael eu darparu hefyd.

Cafodd yr Aelodau fanylion y cynllun "amser i'w finio i fod ar eich ennill" a gyflwynwyd gan KSL i roi mwy o gymhelliad i'r cyhoedd waredu eu sbwriel a gwastraff cŵn mewn modd cyfrifol. Amlygodd y Cynghorydd Smith bwysigrwydd

cynnal momentwm y gwaith a oedd yn cael ei wneud o ran gorfodi yn erbyn troseddau amgylcheddol yn y Sir.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd R.M. Murray ynghylch darparu canllawiau ac eglurder mewn perthynas â'r gofyniad i swyddogion KSL wisgo iwnifformau swyddogol wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol, eglurodd cynrychiolwyr KSL fod y wisg hamdden yn fwy ffafriol wrth gyflawni rhai gweithgareddau, megis y rhai sy'n ymwneud â throseddau baeddu gan gŵn. Eglurodd cynrychiolwyr KSL na fyddent yn gallu rhoi ymateb pellach i unrhyw gwynion a gafwyd tra'u bod yn disgwyl am ddadansoddiad llawn o unrhyw dystiolaeth gysylltiedig. Hysbyswyd y Cynghorydd Murray y byddai'n cael ymateb manwl, a allai fod yn gysylltiedig ag aelodau o'r cyhoedd, wedi i'r ymchwiliadau gael eu cwblhau. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddai swyddogion KSL yn gwisgo iwnifformau swyddogol yn y dyfodol wrth gyflawni dyletswyddau yng Nghanol Trefi.

Cafodd manylion y defnydd o gamerâu ar y corff gan swyddogion KSL, a'r oriau pan fo swyddogion yn cyflawni eu dyletswyddau, eu darparu ar gyfer y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar gael eglurhad o ganllawiau'r Cyngor i'r Cwmni ynghylch gwisgo iwnifform gan swyddogion gorfodi, bod y Pwyllgor yn cefnogi parhad y dull a'r bartneriaeth gyda Kingdom Security Ltd ar gyfer gorfodi yn erbyn troseddau amgylcheddol.*

## 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydgysylltydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei rhaglen gwaith i'r dyfodol ac a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi cael ei gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi cael ei gynnwys fel Atodiad 2 ac roedd tabl a oedd yn crynhoi penderfyniadau diweddar gan y Pwyllgor, ac yn hysbysu ynghylch cynnydd o ran eu gweithredu, wedi cael ei atodi yn Atodiad 3 wrth yr adroddiad.

Aeth y Pwyllgor ati i ystyried ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol a oedd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1, a chytunwyd ar y diwygiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

(a) Adroddiad ar amserlennu a phrosesau monitro ansawdd ar gyfer gwaith adnewyddu tai'r Cyngor i gael ei gynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer Mai 2014. Yr adroddiad i fanylu ar welliannau o ran amserlennu a monitro gwaith i adnewyddu stoc dai'r Cyngor i sicrhau bod contractau yn y dyfodol yn cael eu monitro'n briodol i gyflawni gwaith o ansawdd uchel mewn ffordd resymegol.

(b) Adroddiad ar y cynnydd a'r mesurau a gymerwyd hyd yma i gyflawni Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol y Cyngor i gael ei gynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer Ebrill 2014. Yr adroddiad i nodi'r drefn gyfathrebu ddwyffordd rhwng y Cyngor a thrigolion, y wasg a chyfryngau eraill, a Chynghorwyr.

Roedd Aelodau'n teimlo y byddai cyfathrebu effeithiol yn cynorthwyo'r Awdurdod i drosglwyddo'i negeseuon i drigolion trwy'r holl sianeli sydd ar gael.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r priod Aelodau Arweiniol yn cael eu gwahodd i gyflwyno'r adroddiadau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd T.R. Hughes, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol y byddai materion mewn perthynas â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer hen Safle Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Cynllunio i gael eu hystyried maes o law.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar y diwygiadau a'r cytundebau uchod, y byddai'r Rhaglen Waith a oedd wedi'i nodi yn Atodiad 1 wrth yr adroddiad yn cael ei chymeradwyo.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu'r cyfarfodydd Herio Gwasanaethau canlynol yn ddiweddar:-

Adnoddau Dynol:- Roedd gwaith yn cael ei wneud ar faterion a nodwyd.

Addysg:- Cyfarfod cadarnhaol iawn, arweinyddiaeth dda gyda gwaith da'n cael ei wneud.
Cymeradwyodd y Pwyllgor gais gan y Cadeirydd bod y rhestr o Aelodau sydd wedi'u henwebu i fynychu cyfarfodydd Herio Gwasanaethau'n cael ei chylchredeg.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys, a hefyd*
*(b) cylchredeg y rhestr o Aelodau sydd wedi'u henwebu i fynychu'r priod gyfarfodydd Herio Gwasanaethau.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 p.m.**